

CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 10fed o Fai 2017 / 10th May 2017

Yn bresennol / Present: Cyng Geraint Davies, Cyng Euros Davies, Cyng Bill Green, Cyng Gwilym Jenkins, Cyng Daniel Evans, Cyng Helen Howells, Cyng Alwena Williams, Cyng Eluned Jones, Cyng Hazel Thomas, Cyng Brian Thomas, Mrs Cook, Ty Newydd, Drefach, Mrs Rosemary McKee

Ymddiheiriadau/ Apologise: Cyng Emyr Rees, Cyng Sion Jenkins

Materion Personol/Personal Matters:

Llongyfarchwyd y Cynghorwyr Cymuned ar gael eu hethol yn ddiwrthwynebiad ac i'r Cynghorydd Sir Euros Davies yn yr un modd. Croesawyd pawb yn dwymgalon i'r cyfarfod. Congratulations were extended to the Community Councillors for being appointed unopposed and to the County Councillor Euros Davies who was elected in the same manner. A warm welcome was extended to everyone to the meeting.

AGM / CCB

Cadeirydd/Chairman 2017-2018

Dywedodd y Cyng Daniel Evans nad oedd am gymryd yr awenau fel y Cadeirydd, cynigodd enw'r Cyng Geraint Davies ac eiliwyd hyn gan y Cyng Gwilym Jenkins. Fe wnaeth y Cyng Geraint Davies gytuno sefyll am flwyddyn arall. *Cllr Daniel Evans did not wish to stand as Chairman, he proposed Cllr Geraint Davies' name and Cllr Gwilym Jenkins seconded. Cllr Geraint Davies agreed to take the post for one year.*

Is-Gadeirydd/Vice-Chairman 2017-2018

Cynigodd y Cyng Gwilym Jenkins enw'r Cyng Bill Green ac eiliwyd gan y Cyng Daniel Evans. Cytunodd y Cyng Bill Green gymryd y swydd. *Cllr Gwilym Jenkins proposed Cllr Bill Green and Cllr Daniel Evans seconded. Cllr Bill Green agreed to take the post.*

Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog / Financial Regulations and Standing Orders

Aethpwyd trwy'r ddwy ddogfen sef dogfen Rheoliadau Ariannol a dogfen Rheolau Sefydlog a derbyniwyd y ddau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. *The Community Council reviewed the Financial Regulations document and the Standing Order document and both were agreed for the year ahead.*

Dogfen Asesiad Risg y Cyngor / Council's Risk Assessment

Roedd y Clerc wedi drafftio asesiad risg ar gyfer y Cyngor Cymuned am y flwyddyn sydd i ddod, derbyniwyd hyn gan y Cyngor Cymuned ac mi fydd yn cael ei ddanfon gyda'r cyfrfion i'r arolygydd

allanol sef y BDO. The Clerk had drafted a risk assessment document for the Community Council for the forthcoming year and it was accepted by the Community Council. It will be sent to the external auditor, the BDO.

Cod Ymddygiad / Code of Conduct

Penderfynwyd mabwysiadu Cod Ymddygiad y Cyngor Sir at ddibenion y Cyngor Cymuned hefyd. Fe wnaeth pob cynghorydd gytuno i ymddwyn yn unol a’r Cod ac arwyddo’r cytundeb. The Code of Conduct template from Ceredigion County Council was adopted for the purposes of the Community Council too. All Councillors agreed to act in line with the Code and signed the declaration.

Apwyntio Archwiliwr Mewnol / Appoint Internal Auditor

Apwyntiwyd enw Mr Stan Evans fel yr archwiliwr mewnol. Mr Stan Evans’ name was appointed as the internal auditor.

Cyfrifon / Accounts

Cynnigwyd bod y cyfrifon yn gywir gan y Cyng Daniel Evans ac eiliwyd gan y Cyng Hazel Thomas. The accounts were proposed as correct by Cllr Daniel Evans and seconded by Cllr Hazel Thomas.

Asedau / Assets

Cynnigwyd bod rhestr yr asedau yn gywir gan y Cyng Helen Howells ac eiliwyd gan y Cyng Bill Green. The asset register were proposed as being correct by Cllr Helen Howells and seconded by Cllr Bill Green.

Lleoliad y cyfarfodydd / Location of Meetings

Penderfynwyd aros yn Neuadd Drefach er y bydd y pris yn codi o £5 i £10 am bob cyfarfod. It was decided to stay in Drefach Hall even though the price will raise from £5 to £10 for every meeting

1.	<u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u> Dim buddianau personol. <i>No declarable personal interests.</i>	
2.	<u>Cadarnhau’r Cofnodion / Agree Minutes</u> Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Ebrill yn gywir gan y Cyng. Gwilym Jenkins ac fe’i eiliwyd gan y Cyng Bil Green <i>The April minutes were proposed as a true record by Cllr Gwilym Jenkins and seconded by Cllr Bill Green.</i>	
3.	<u>Materion yn Codi – Matters Arising</u> a. Taith Dros Fywyd / Walk for Life – Diolch i bawb wnaeth gynorthwyo yn ystod y diwrnod gan sicrhau bod £631 yn mynd i’r elusen. <i>Thank you to everyone who helped in any way ensuring that a cheque of £631 will be given to the charity.</i> b. Pont Drefach Bridge – Derbyniwyd ymateb wrth y Cyngor Sir yn dweud nad oes llawer y medran nhw ei wneud ond eu bod yn foldon cwrdd a’r Cynghorwyr ar y safle, y gobaith yw cwrdd ar y safle ar y 7fed o Fehefin. <i>A response was received from the County Council stating that there isn’t much</i>	Cyng Geraint Davies, Cyng Bill Green,

	<p><i>they can do, however they are willing to meet on site, the hope is to meet on site on the 7th June.</i></p>	<p>Cyng Euros Davies</p>
c.	<p>Arwyddion Ciosg / Kiosk Signs – Mae’r arwyddion ‘Defibrillator’ yn edrych yn iawn ac yn £8.50 yr un. Cynigwyd enw Graham Watson i greu silffoedd llyfrau yn Nrefach hefyd gan fod y bobl a oedd yn y cyfarfod yn awyddus i gael un yno. <i>The ‘Defibrillator’ signs look fine and are £8.50 each. Graham Wastson’s name was proposed to create book shelves in the Drefach Kiosk as attendees of the meeting from the village were keen to run a book swap shop.</i></p>	<p>Clerc</p>
d.	<p>Cyflymder Traffig Drefach / Drefach Traffic Speed - Dywedodd y Cyng Euros Davies fod pob lori sy’n dod i Gware Alltgoch wedi cael rhybudd ac arwydd yn eu loriau i gadw at y cyflymder traffig. <i>Cllr Euros Davies explained that every lorry that comes to Alltgoch Quarry have been given a warning and notice stipulating that they need to abide by the speed limits.</i></p>	<p>Clerc</p>
e.	<p>Comisynydd yr Heddlu / Police and Crime Commissioner Penderfynwyd y byddai’r Clerc yn cysylltu gyda’r comisynydd i weld pryd y mae e ar gael i ddod i gwrrd a thrigolion y Plwyf yn Neuadd Gorsgoch. <i>It was decided that the Clerk should contact the commissioner to find out when he’s available to come and meet the residents of the Parish in Gorsgoch Hall.</i></p>	
f.	<p>Cylchfan Highmead Roundabout – Mae’r golau oedd ymlaen drwy’r nos wedi ei ddiffodd a’r bwriad yw ei symud i ochr arall yr heol. <i>The light which was on all night has been turned off and the plan is to move it to the other side of the road.</i></p>	
4.	<p><u>Gohebiaeth – Correspondence</u></p>	
a.	<p>Cod Ymddygiad yr Aelodau / Code of Conduct – Esboniwyd, derbyniwyd ac arwyddwyd gan y Cynghorwyr Cymuned. <i>The Code was explained, accepted and signed by the Community Councillors.</i></p>	
b.	<p>Llwybr Ceffylau Alltgoch Bridal Path – Derbyniwyd llythr gan Mr Huw Evans yn godi consyrn am y ceffylau a’r marchogion sydd yn defnyddio’r llwybr ceffylau sy’n mynd drwy’r clos a thir y fferm. Penderfynwyd gofyn i’r Cyngor Sir roi’r mater ar agenda pwyllgor Cymunedau Ffyniannus er mwyn edrych i fewn i’r mater ymhellach. Mi fyddai’r Clerc hefyd yn gysylltu gyda Mr Evans i esbonio os yw’n cael trwbwl gan y marchogion y dylai gwyno at yr heddlu. <i>A letter has been received by Mr Huw Evans raising concerns over the horses and their riders who use the bridlepath</i></p>	<p>Clerc</p>

	<p><i>which runs through the yard and land of the farm. It was decided to ask the County Council to put the matter on the agenda of the Stronger Communities meeting for them to investigate the matter further. The Clerk would also contact Mr Evans to explain if he is getting harassed by the riders that he needs to report the matter to the police.</i></p>	
c.	<p>Ysgol Gynradd Llanwenog a Cwrtnewydd – Derbyniwyd llythyr yn gofyn i'r Cynghorwyr Cymuned am eu barn ynghylch dyfodol Ysgol Cwrtnewydd. Nid eiddo'r cyngor sir yw Ysgol Llanwenog. Gofwynwyd am estyniad gan y Cynghorwyr cyn ymateb. <i>A letter was received asking the Community Councillors for their opinion regarding the future of Cwrtnewydd School. The County Council do not own Llanwenog School. The Councillors asked for an extension before responding to the consultation.</i></p>	Clerc
d.	<p>Cwrs Hyfforddiant Cynghorwyr Newydd / New Councillors Training Course. Derbyniwyd enwau ar gyfer yr hyfforddiant. <i>Names were received for the training.</i></p>	Clerc
e.	<p>Eluned Morgan AC / AM – Poster Nodwyd/Noted</p>	
f.	<p>Un Llais Cymru / One Voice Wales – Rhoddwyd enw'r Cadeirydd ymlaen i fynychu'r cyfarfodydd. <i>The name of the Chairman was put forward to attend the meetings.</i></p>	Clerc
g.	<p>Cyfnewid Planhigion Cwrtnewydd Plant Swap – 20/5/2017 Ffestri Capel Seion.</p>	
h.	<p>#CyfnewidSyniadau #IdeasExchange – Posted Nodwyd/Noted</p>	
i.	<p>Guide to taking part in 'Battle's Over - A Nation's Tribute & WWI Beacons of Light 11th November 2018' – Mi fyddwn yn edrych i fewn i'r digwyddiad yn agosach at y dyddiad. <i>We will look into the event closer to the date.</i></p>	
5.	<p><u>Taliadau a Ceisiadau am Arian – Payment and requests</u></p> <p>a. AON Yswiriant / Insurance - £373.98 b. TL Thomas Kiosk Panes - £42.96 c. Taith Dros Fywyd / Walk for Life - £631.00</p> <p>Cynigwyd y taliadau gan y Cyng Bill Green ac eiliwyd gan y Cyng Eluned Jones. <i>The payments were proposed by Cllr Bill Green and seconded by Cllr Eluned Jones.</i></p>	
6.	<p><u>Cynllunio – Planning</u></p> <p>a. A170262 – Caedabowen Farm, Highmead, Llanybydder: Ymestyn y bwthyn fferm i mewn i'r bwthyn sydd ynghlwm Extension of the farm</p>	

	cottage into the adjoining coach house. Dim gwrthwynebiad – <i>No objection.</i>	
7.	<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf - Date and time of next meeting</u>	
a.	Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 6ed o Fehefin am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. <i>It was decided to hold the next meeting on the 6th of June at 7.30pm at Drefach Village Hall.</i>	
b.	Derbyniwyd llythyr wrth y Cyng Lewis Davies ar ei ymddeoliad ac yn diolch am fod yn Gyngorydd Cymuned. <i>A letter was received from Cllr Lewis Davies on his retirement giving thanks for being a Community Councillor for many years.</i>	
c.	Mae un twll yn yr heol rhwng Ger y Nant a Brookland sydd angen ei drwsio. <i>There is a pot hole in the road between Ger y Nant and Brookland which needs filling.</i>	Clerc

Arwyddwyd.....

Dyddiad.....